The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk

At yr Ymgeisydd

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 9 Mai 2023

Annwyl Syr/Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 89**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Hysbysiad gan yr Ymgeisydd o fwriad i gyflwyno cais i wneud newidiadau i'r cais**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mai 2023 [AS-066] yn hysbysu am fwriad Liverpool Bay CCS Limited i gyflwyno ail gais i wneud newidiadau i'r cais. Teitl y llythyr yw 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais am Newid 2' (NISCR2) ac fe'i cyhoeddwyd ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Gellir ei weld gan ddefnyddio'r ddolen uchod. Mae eich llythyr [AS-066] yn amlinellu'r canlynol:

- Cais am Newidiadau Arfaethedig 2, gan gynnwys disgrifiad o'r newidiadau a chyfiawnhad iddynt.
- Bwriad i gyflwyno dogfen Cais am Newid 2 Atodiad i Ddatganiad Amgylcheddol (ES) 2023.
- Manylion ynglŷn â'r dull arfaethedig o ymgynghori.
- Graddfeydd amser dangosol ar gyfer cyflwyno'r newidiadau.
- Diwygiadau arfaethedig i amserlen Cais am Newid 1 yr Ymgeisydd i sicrhau y cydymffurfir â'i ddyletswyddau o dan y Rheoliadau perthnasol a bod ymgyngoreion yn cael digon o amser i ystyried ac ymateb.

Mae'r llythyr wedi cael ei gyflwyno yn unol â Cham 1 y weithdrefn argymelledig yn 'Nodyn Cyngor 16: Sut i ofyn am gael gwneud newid a allai fod yn berthnasol' yr Arolygiaeth Gynllunio (AN16). O ran NISCR2, mae'n disgrifio newidiadau i Derfynau'r Gorchymyn ac un opsiwn dylunio ychwanegol a fyddai'n arwain at amrywiadau i'r tir sy'n destun caffael

gorfodol a hawliau dros dir. Mae hefyd yn nodi y bydd cais am gael gwneud newid yn cael ei gyflwyno ar 26 Mai 2023.

O ran y materion uchod, byddai'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn rhoi'r cyngor canlynol mewn perthynas â NISCR2 yr Ymgeisydd, gyda'r bwriad o ganiatáu i'r Ymgeisydd gwblhau'n derfynol a gweithredu ei ymgynghoriad arfaethedig ar ei Gais am Newid 2 perthnasol.

**Perthnasedd y newidiadau arfaethedig**

Mae'r ExA yn nodi bod y newidiadau arfaethedig yn cynnwys:

Newid 1 – opsiwn Pont Bibell Ymgorfforedig (EPB) i groesi Nant Alltami, yn lle'r ffos a ffefrir gan yr Ymgeisydd, pe ystyrir nad yw ei opsiwn a ffefrir yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae'r opsiwn EPB yn gofyn am gymryd tir ar yr wyneb a ddangosir ar y cynlluniau tir ar hyn o bryd fel caffaeliad is-wyneb yn unig. Er na fyddai'r newid arfaethedig hwn yn golygu bod angen caffael tir ychwanegol yn orfodol, byddai'r categori caffael a geisir yn newid.

Yn ogystal, mae'r Ymgeisydd yn datgan, pe byddai'r opsiwn EPB yn cael ei ddewis, byddai hefyd yn golygu gwyro hawl dramwy gyhoeddus yn barhaol o amgylch strwythur cynhaliol y bont.

Mae'r Ymgeisydd o'r farn ei bod yn deg ac yn rhesymol ymgynghori ar y newid hwn, pe byddai'n cael ei dderbyn, o ystyried y posibilrwydd o ymyrryd mwy â hawliau tirfeddianwyr.

Newid 2 – mae hyn yn ymwneud â dau leoliad yn gysylltiedig â 2 Sisters Food Group. Byddai'r diwygiadau arfaethedig yn arwain at ychwanegu tir at Derfynau'r Gorchymyn mewn un lleoliad (sef hyd ychwanegol o drac cynnal a chadw presennol i'r gogledd/gogledd-ddwyrain o Chester Road East), ar yr un pryd â dileu ail ardal o dir o Derfynau'r Gorchymyn sy'n cynnwys cylch troi lorïau a ddefnyddir mewn perthynas â gweithredu ffatri 2 Sisters Food Group.

Mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod yn disgwyl y bydd Rheoliad 4 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 (y Rheoliadau CA) yn berthnasol i'w newidiadau arfaethedig. Ar sail y wybodaeth a gyflenwyd yn NISCR2 yr Ymgeisydd, nid yw'r ExA yn anghytuno â barn yr Ymgeisydd yn hyn o beth, yn enwedig gan nad yw'r Ymgeisydd wedi nodi p'un a oes ganddo gydsyniad y tirfeddiannwr i gynnwys y 'Tir Ychwanegol' y mae'n ceisio ei gynnwys yn Nherfynau'r Gorchymyn. Fodd bynnag, yn y pen draw, mater i'r ExA yw penderfynu p'un a yw newid arfaethedig yn berthnasol ai peidio pan gyflwynir y cais ffurfiol.

Mae'r ExA o'r farn bod y NISCR2 [AS-066] yn rhoi disgrifiad clir o'r newidiadau arfaethedig ac yn amlinellu sail resymegol yr Ymgeisydd a'i angen dybryd i wneud y newidiadau a fanylir yn y ddogfen honno. Fodd bynnag, mae'r ExA hefyd o'r farn y gallai'r newidiadau arfaethedig arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol newydd neu sylweddol wahanol, ond nid oes ganddo ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i ffurfio barn. Fel y cyfryw, byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth ddigonol, yn hyn o beth, gyda'i Gais am

Newid i alluogi'r ExA i ffurfio barn am y mater hwn. Yn ogystal, byddai angen i'r Ymgeisydd sicrhau bod y wybodaeth a ragnodir gan Reoliad 5 y Rheoliadau CA yn cael ei chyflwyno yn rhan o unrhyw Gais am Newid ffurfiol a wneir.

O ran effeithiau ar amserlen yr archwiliad, mae'r ExA yn pryderu'n fawr am y graddfeydd amser a amlinellir yn NISCR2 ar hyn o bryd. Ar ôl ystyried y rhain yn ofalus, nid yw'r ExA yn fodlon ar hyn o bryd, wrth gymhwyso Rheoliadau 5 i 19 y Rheoliadau CA, fod digon o amser ar ôl o fewn chwe mis statudol yr Archwiliad. Fel y cyfryw, byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd egluro mewn unrhyw Gais am Newid ffurfiol a gyflwynir sut y gellir bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, fel y'u hamlinellir yn rheoliadau 5 i 19 y Rheoliadau CA, o fewn gweddill chwe mis statudol yr Archwiliad.

Byddai'r ExA yn annog yr Ymgeisydd i roi ystyriaeth ddifrifol i amserlen yr Archwiliad, fel y'i hamlinellir yn ei lythyr NISCR2, oherwydd byddai cynnwys y newidiadau arfaethedig yn Amserlen yr Archwiliad yn dibynnu ar weithredu ar frys gan yr Ymgeisydd, gan gyflwyno'r cais ffurfiol am newid cyn gynted â phosibl a darparu'r Tystysgrifau Cydymffurfio i'r ExA, fel sy'n ofynnol gan Reoliad 9 y Rheoliadau CA, yn gynt o lawer na'r 10 niwrnod gwaith a ganiateir. Byddai angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r dyddiadau cyhoeddi hefyd, gyda'r bwriad o wneud hyn cyn gynted â phosibl, os derbynnir y cais am newid, ar yr un pryd â sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau CA o hyd.

**Ymgynghori**

P'un a yw'r newidiadau arfaethedig yn berthnasol ai peidio, mae'r ExA o'r farn, er mwyn sicrhau tegwch, y dylai ymgynghoriad priodol a chymesur gael ei gynnal. Mae'r ExA yn nodi safbwynt yr Ymgeisydd bod ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig cyn cyflwyno (gweler adran 42 (a) i (d) Deddf Cynllunio 2008) yn ddiangen gan fod y newidiadau y gofynnir amdanynt yn deillio o'r ymatebion a roddwyd i ymgynghoriad blaenorol ac ymgysylltu dilynol â Phartïon â Buddiant. Er nad yw'n ddelfrydol, nodir cyfiawnhad yr Ymgeisydd ynglŷn â pham nad oes angen cyhoeddusrwydd cyffredinol o'r fath cyn cyflwyno ei Gais am Newid ffurfiol i sicrhau tegwch, a deëllir safbwynt yr Ymgeisydd yn hyn o beth.

Ni waeth am yr uchod, wrth gyflwyno'r cais ffurfiol am newid, mae'r ExA yn argymell bod yr Ymgeisydd yn cyflwyno datganiad sy'n:

- rhestru'r unigolion (y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt) y bydd yn ymgynghori â nhw (gan nodi unrhyw unigolion newydd, h.y. y rhai hynny yr ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â'r newid arfaethedig ond nid ynglŷn â'r cais gwreiddiol);

- nodi (o fewn y rhestr uchod) yr unigolion hynny sy'n "unigolion yr effeithir arnynt", sy'n golygu'r unigolion hynny y bydd pwerau Caffael Gorfodol yn cael eu harfer dros eu tir;

- cyfiawnhau pam nad yw'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw unigolyn y byddai wedi bod yn ymgynghorai fel arfer o dan adran 42(1)(a) i (d) ac felly ni ymgynghorwyd ag ef.

Os bydd yr ExA yn penderfynu derbyn y newidiadau (p'un a ydynt yn berthnasol ai peidio) i'r Archwiliad, bydd yr holl Bartïon â Buddiant yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y cais sydd wedi'i newid yn ysgrifenedig neu ar lafar mewn gwrandawiadau wrth i'r Archwiliad symud ymlaen.

**Y camau nesaf**

Felly, gofynnir i'r Ymgeisydd sicrhau bod y cais am newid, y mae'n bwriadu ei gyflwyno ar 26 Mai 2023 ar hyn o bryd, yn ymateb yn llawn i'r pwyntiau a wnaed uchod.

Dylid nodi nad yw'r ExA yn awgrymu y bydd yn derbyn NISCR2 yn y llythyr hwn. At hynny, sylwer os bydd unrhyw Gais am Newid ffurfiol yn cael ei dderbyn gan yr ExA, byddai'r Newidiadau arfaethedig yn cael eu gwneud ar y sail y gellir cwblhau'r holl brosesau o fewn yr amser sy'n ofynnol cyn diwedd yr Archwiliad ac yn unol ag unrhyw Amserlen Archwiliad ddiwygiedig a allai gael ei chyhoeddi. Os na fydd yn bosibl cyflawni hyn, ni fyddem mewn sefyllfa i ystyried y cais am newid yn adroddiad argymhelliad yr ExA i'r Ysgrifennydd Gwladol gan na fyddai wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau statudol perthnasol.

Yn gywir

*Christopher Butler*

**Arolygydd Archwilio**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



disability confident EMPLOYER